

Y straeon sy'n apelio fwyaf

“... dewiswch ichwi'n awr pwy a wasanaethwch ...” (adn.15)

Beth am ddarllen Josua 24:1–18 ac yna myfyrio

Dydy'n hangen ni am stori ddim yn golygu y gwnaiff unrhyw stori y tro. Mae nofelwyr yn gwybod mai'r straeon sy'n apelio fwyaf yw'r rheiny sy'n cynnwys elfen o ramant a chyffro ynddyn nhw. Mae pob stori ramant a chyffro dda yn cynnwys elfennau arbennig: grym rhyw gariad mawr, presenoldeb da a drwg, bygythiad o berygl, barnu'r drygioni yn y diwedd, taith anturus neu siwrne, ac, yn bwysicach na dim, arwr neu arwres sy'n llwyddo mewn amryw o broffion er mwyn gwneud popeth yn dda neu achub ei fywyd neu ei bywyd ei hun.

Byddai llawer o adrannau o'r Beibl y mae pobl yn cael trafferth eu darllen yn colli rhywbeth pe na byddai'r elfennau o gyffro neu ramant yno. Dychmygwch, mewn storïau tylwyth teg, pe gallai'r tywysog drygionus neu'r ewyrth cas bechu'n ddigerydd, pe byddai'r ddraig yn un hawdd i'w goresgyn, neu pe gallai'r tywysog da achub y dydd, fel petai, trwy eistedd yn ei gastell yn astudio athroniaeth. Os fel hyn y byddai hi, yna fyddai neb yn eu darllen nhw. Roedd y rhai a ysgrifennodd y storïau hynafol hyn yn gwybod am yr angen i gynnwys elfennau o berygl, cyfyngiadau amser, ceisiadau i achub, ac felly ymlaen. Rhaid i bobl wneud penderfyniadau pwysig oddi mewn i ffrâm amser: “Os na chaiff y maen ei ddychwelyd i'w le priodol yn y tŵr cyn i haul y bore daro'r wal ddwyreiniol, yna byddi'n colli dy deyrnas a'th briodferch.”

Un yw'r stori sydd o'n blaenau heddiw o'r nifer o adrannau yn y Beibl sy'n dangos inni mai, o blith yr holl ddewisiadau y gelwir arnom i'w gwneud yn ystod ein bywyd, y pwysicaf ohonyn nhw i gyd yw ochri o blaid yr Arglwydd. Ond mae'n rhaid inni gadw mewn golwg bob amser, er eu bod yn llawn rhamant a chyffro, nad storïau tylwyth teg, ond ffaith yw storïau'r Beibl. Mae'r materion bywyd a marwolaeth yma yn hanfodol: “...gosodwyd i ddyinion eu bod i farw un waith, a bod barn yn dilyn hynny.” (Heb. 9:27)

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 6: 9–22; Luc 15:11–32

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa wirioneddau hollbwysig mae stori Noa yn eu cyfleu?
2. Ymhle rwyf ti'n gosod dy hun gan gofio'r stori a ddywedodd Iesu?

Gweddï Helpa fi, fy Nhad, i ddarllen y Beibl, nid fel petai'n ddalen wedi ei rhwygo o'r gorffennol, ond fel drych sy'n adlewyrchu'r fan lle rwyf fi wedi ei chyrraedd ar fy nhaith o ffydd bersonol. Gad imi agor fy hun bob amser i wirioneddau dy Air. Yn enw Crist. Amen.